

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458
(LLANFAIR CAEREINION I LANGADFAN,
POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS
DRO) 2025**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, rhwng Llanfair Caereinion a Llangadfan, ym Mhowys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, at ddibenion graeanu dros y gaeaf neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A495 gyferbyn â Maes Carafannau Neuadd Bridge, man i'r gogledd-orllewin o Lanfair Caereinion hyd at ei chyffordd â'r B4395, ychydig i'r gogledd-orllewin o bentref Llangadfan.

Y llwybr arall i yrwyr sy'n dymuno teithio tua'r gorllewin o bwynt dwyreiniol cau'r ffordd yw tua'r dwyrain ar yr A458 i gylchfan Raven, y Trallwng; tua'r dwyrain ar y B4381 Brook Street; tua'r dwyrain ar yr A458 Church St gan barhau ar hyd Salop Road; tua'r de ar Mill Lane gan barhau ar Smithfield Rd; tua'r de ar yr A483 hyd at gylchfan Dolfor Rd ar ffordd osgoi'r Drenwydd; tua'r gorllewin ar yr A489 i Gaersws; tua'r gogledd ar yr A470 i Fallwyd, a thua'r dwyrain ar yr A458. Y llwybr arall i yrwyr sy'n dymuno teithio tua'r dwyrain o bwynt gorllewinol cau'r ffordd fydd i'r gwrthwyneb.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 13 Ionawr 2025. Disgwylir i'r gwaharddiadau dros dro gael eu gwneud yn ysbeidiol a byddant yn weithredol yn ystod oriau'r nos yn unig rhwng 13 Ionawr 2025 a 24 Ionawr 2025 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A458 TRUNK ROAD (LLANFAIR
CAEREINION TO LLANGADFAN, POWYS)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2025**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road between Llanfair Caereinion and Llangadfan, in Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, for winter gritting purposes or for the works, from proceeding on the length of the trunk road that extends from its junction with the A495 opposite Neuadd Bridge Caravan Park, northwest of Llanfair Caereinion to its junction with the B4395, just northwest of the village of Llangadfan.


The alternative route for drivers wishing to travel west from the eastern point of closure is eastwards on the A458 to Raven roundabout, Welshpool; east on the B4381 Brook Street; east on the A458 Church St continuing onto Salop Road; south on Mill Lane continuing onto Smithfield Rd; south on the A483 to Dolfor Rd roundabout on the Newtown bypass; west on the A489 to Caersws; north on the A470 to Mallwyd, and east on the A458. The alternative route for drivers wishing to travel east from the western point of closure will be vice versa.

The Order comes into force on 13 January 2025. The temporary prohibitions are expected to be carried out intermittently and will operate only during night-time hours from 13 January 2025 to 24 January 2025 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled, or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be given before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government